Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

SIARC

# Sut i gynnal eich helfa plisg wyau siarcod eich hun!

## Beth fydd arnoch ei angen:

Bwced neu fag, welingtyns neu esgidiau cerdded, canllaw adnabod, ffôn symudol ar gyfer tynnu lluniau!

## Cam 1: Dewiswch eich traeth.

Ewch â'ch bwcedi neu fagiau ac ewch i'r traeth!

Gwnewch yn siŵr eich bod yn ofalus wrth edrych ar hyd y draethlin ac yng nghanol y llystyfiant a chadwch eich llygad ar y llanw. Dydych chi ddim eisiau cael eich dal!

## Cam 2: Ewch ati i hela!

Edrychwch yn fanwl ar hyd cymaint o'r traeth ag y dymunwch! Beth am geisio llenwi'ch bwcedi a'ch bagiau gyda phlisg wyau!

## Cam 3: Amser Adnabod.

Unwaith y byddwch chi wedi dod o hyd i gymaint o blisg wyau ag y gallwch chi, mae'n amser darganfod pa rywogaethau maent yn perthyn iddynt. Defnyddiwch y canllaw adnabod yn y pecyn a roddwyd i chi yn y digwyddiad ‘Helfa Plisg Wyau Siarcod Fawr’ a chymharu’r gwahanol feintiau, siapiau a nodweddion pob plisgyn ŵy.

## Cam 4: Peidiwch ag anghofio cofnodi eich canfyddiadau!

Mae hyn yn bwysig iawn ac mae'n ein helpu ni i ddeall pa rywogaethau sydd gennym ni o gwmpas Cymru a ble maen nhw i'w gweld.

Chwiliwch am ‘Helfa Plisg Wyau Fawr Ymddiriedolaeth y Siarcod’ ar-lein a chlicio ar y tab ‘Cofnodi eich plisg wyau nawr’. Yma, byddwch yn gallu cofnodi faint o bob rhywogaeth y daethoch o hyd iddynt.

Cofiwch ychwanegu Prosiect Siarc yn y tab trefniadaeth ar y dechrau!

## Cam 5: Rhowch wybod i ni beth rydych chi wedi bod yn ei wneud!

Rhannwch eich lluniau a'ch darganfyddiadau gyda ni ar gyfryngau cymdeithasol, gan dagio @North_Wales_WT a @ProjectSIARC. Byddem wrth ein bodd yn gweld sut rydych chi i gyd yn dod ymlaen!

## I gael rhagor o wybodaeth ac i archebu lle mewn digwyddiadau yn y dyfodol, ewch i wefannau a chyfryngau cymdeithasol Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru a Phrosiect Siarc!

**Traeth:**

**Dyddiad:**

| Rhywogaeth | Nifer a Gasglwyd | Wedi Tynnu Llun? |
| --- | --- | --- |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

